PAM DEWIS TGAU

# Y GWYDDORAU (DWYRADD)?

## Y GYFRES TGAU Y GWYDDORAU O MEDI 2026

Mae'r llwybrau canlynol ar gael yn y gyfres:

**TGAU Bioleg/Cemeg/Ffiseg**
Bydd dysgwyr yn astudio ar gyfer 3 TGAU ym mhob un o'r gwyddorau ac yn derbyn gradd ar wahân ym mhob un ohonynt.

**TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)**
Bydd dysgwyr yn astudio'r tair gwyddor ac yn derbyn dwy radd TGAU.

**TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Gradd Unigol)**
Bydd dysgwyr yn astudio'r tair gwyddoniaeth mewn dull cyd-destunol ac yn derbyn un radd TGAU.

---

Mae TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) yn gymhwyster newydd sy'n cefnogi eich dysgu a'ch dilyniant drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n eich galluogi i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae'r cymhwyster yn cyfrif fel dau TGAU ac yn caniatáu dilyniant i astudio ôl-16, gan gynnwys cyrsiau UG a Safon Uwch Gwyddoniaeth.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 7 uned i'r cwrs:

- **Uned 1: Bioleg**
  - Sail Bywyd
- **Uned 2: Cemeg**
  - Sylweddau Cemegol a Sut Maen Nhw'n Ymddwyn
- **Uned 3: Ffiseg**
  - Grymoedd, Mudiant a'r Bydysawd
- **Uned 4: Bioleg**
  - Parhad Bywyd
- **Uned 5: Cemeg**
  - Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau
- **Uned 6:Ffiseg**
  - Tonnau, Trydan ac Egni
- **Uned 7: Ymholiad Gwyddonol**

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

**Mae 7 uned i'r cwrs:**

- Deall ac esbonio cysyniadau mewn bioleg, cemeg a ffiseg, a'u cymhwyso i gyd-destunau yn y byd go iawn.
- Cwestiynu syniadau gwyddonol, gwerthuso tystiolaeth, a defnyddio sgiliau meddwl yn greadigol i ddatrys problemau.
- Dylunio, cynnal a mireinio ymchwiliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau ymholi.
- Dadansoddi a dehongli data i ddod i gasgliadau dilys.
- Defnyddio sgiliau mathemategol, digidol a chyfathrebu i gyflwyno ac esbonio syniadau gwyddonol yn effeithiol.
- Ystyried materion moesol, moesegol a chynaliadwyedd mewn gwyddoniaeth a deall eu heffaith yn lleol ac yn fyd-eang.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

Mae'r cymhwyster wedi'i rannu'n 7 uned, ac mae pob un yn cael ei marcio gan CBAC.

| | | |
|---|---|---|
| Uned 1 | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| Uned 2 | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| Uned 3 | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| Uned 4 | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| Uned 5 | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| Uned 6 | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| Uned 7 | **Asesu drwy arholiad** Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau dau ymholiad o ddewis o dri. Nid oes haenau i'r uned hon. | 10% o gyfanswm y marciau |

## GYRFAOEDD YM MAES GWYDDONIAETH

Gall TGAU Gwyddoniaeth agor cyfoeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi yn y meysydd canlynol: Awyrofod ac amddiffyn, Amaethyddiaeth, Diwydiannau cemegol a fferyllol, Cosmetigau a gofal personol, Addysg, Egni ac egni adnewyddadwy, Peirianneg, Gwyddor yr amgylchedd, Cynhyrchu bwyd a diodydd, Gwyddoniaeth fforensig, Meddygaeth a gofal iechyd, Meteoroleg a newid hinsawdd, Gwyddoniaeth ac ymchwil, Chwaraeon a ffitrwydd, a Thelathrebu.

Mae gan y rhan fwyaf o swyddi elfen o wyddoniaeth ynddynt. Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio gwyddoniaeth.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.